

Safonau Dilysadwy Creu Coetir Glastir

Canllawiau a safonau dilysadwy ar gyfer categoraiddio methiannau
Glastir yng Nghymru

Fersiwn 2.0 2018



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Y Gofynion

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i blannu mwy o goed yng Nghymru drwy gynllun Glastir - Creu Coetir i gynnig nifer o fanteision, i:

- Ddarparu lloches i dda byw ac adeiladau rhag tywydd garw.
- Rheoli symudiad da byw drwy godi ffensys a phlannu ardaloedd sy'n anodd eu cyrraedd e.e. gelliöedd serth.
- Tyfu cyflenwad cynaliadwy o goed tân a phren e.e. ar gyfer adeiladu a ffensio.
- Sefydlu cynefinoedd ar gyfer bywyd gwyllt.
- Lleihau'r perygl o lifogydd i lawr yr afon a siltio o fewn cyrsiau dŵr.
- Sgrin ar gyfer llygredd sŵn e.e. o ffyrdd a rheilffyrdd.
- Cyflwyno cyfleoedd newydd i sefydlu systemau amaeth-goedwigol.

Er mwyn cyflawni'r ymrwymadau hyn, mae'n rhaid i ddeiliad y contract sicrhau:

- Nad oes unrhyw ddifrod o frigbori a dim tystiolaeth bod yr ardal sy'n cael ei gwarchod rhag pori wedi cael ei defnyddio gan dda byw
- Ni ddylid tyfu unrhyw gnydau o fewn ardal y contract.
- Cadw'r coed sy'n cael eu plannu yn unol ac arferion rheoli coedwigoedd cynaliadwy arferol.
- Dylid gweld twf rhesymol mewn uchder pob blwyddyn fel bod coed pum mlwydd oed yn 5 i 6 troedfedd (1.5 i 1.8m) o uchder neu uwch.
- Dylid cynnal ardal heb chwyn o amgylch gwaelod y goeden am dair blynedd yn dilyn yr hawliad Gwaith Cyfalaf ar gyfer plannu.
- Gwarchod y coed sy'n cael eu plannu rhag difrod neu gystadleuaeth gan chwyn, pryfaid, plâu ac anifeiliaid sy'n brigbori megis cwingod, ysgyfarnogod ac, ar gyfer amaeth-goedwigaeth, defaid.
- Dylid plannu coed yn lle'r rhai sy'n marw.
- Mae'r grant cynnal a chadw yn seiliedig ar chwynnu cyfnodol a phlannu coed newydd yn lle rhai marw.

Disgrifiad o'r Tramgwydd	Difrifoldeb	Pa mor fawr	Parhaol
Tystiolaeth bod da byw ar dir y contract	Isel - Stoc ardal wedi eu cadw allan ond wedi torri i mewn Uchel - Stoc heb ei gadw allan o'r ardal	Mesuradwy	Modd ei gywiro 2 Parhaol
Tystiolaeth bod cnydio ar dir y contract	Uchel	Mesuradwy	Modd ei gywiro 2 Parhaol
Mae'r ymrwymiad yn mynnu bod angen hysbysu am werthu a throsglwyddo cyn pen 30 diwrnod.	Isel – Derbyn hysbysiad, ond nid cyn pen 30 diwrnod. Canolig – Heb dderbyn hysbysiad.	Maint 1	Modd ei gywiro 1
Tystiolaeth nad ydych wedi creu'r ardal gontract	Cymhwyster		

Tystiolaeth nad yw'r ardal gontract wedi'i chynnal	<p>IseI - dim cynnal a chadw ond dim effaith ar sefydlu coed</p> <p>Uchel - dim cynnal a chadw, gydag effaith ar sefydlu coed</p>	Mesuradwy	Modd ei gywiro 2 Parhaol
A oes dyddiadur gwaith cyfredol wedi'i lenwi ac ar gael i'w archwilio?	<p>IseI – Hyd at 5 cofnod gwaith ar goll</p> <p>Canolig – Dros 5 cofnod gwaith ar goll</p> <p>Uchel – Dim cofnodion</p>	Maint 1	Modd ei gywiro 1 Modd ei gywiro 2 Parhaol